



### Parêd Gŵyl Dewi - yfory

Byddwn fel ysgol yn cymryd rhan yn y Parêd a drefnir gan y Cyngor Tref **yfory**, gan gwrdd ger Cloc y Dref am 12:50 wrth baratoi at y parêd a fydd yn cychwyn am 1 o'r gloch. Mae croeso i chi i gyd gerdded gyda ni.

### *Saint David's Parade - tomorrow*

*We will be taking part in the Parade organised by the Town Council* ***tomorrow****, meeting near the Town Clock at 12:50 in preparation for the parade which will start at 1 o'clock. You are all welcome to join us.*

---



### Dathlu Gŵyl Dewi – 2ail o Fawrth

Gyda Dydd Gŵyl Dewi yn glanio ar ddydd Sul eleni, mae croeso i'r disgyblion wisgo mewn gwisg draddodiadol Gymreig neu mewn crysau rygbi a phêl-droed Cymru ac ati ar ddydd Llun yr 2ail o Fawrth.

### *Celebrating St David's Day – 2nd of March*

*As St David's Day falls on a Sunday this year, pupils are welcome to wear traditional Welsh costume or Wales rugby or football shirts, etc., on Monday 2nd March.*

---



### Llanddewi Brefi

Mae llythyr eisoes wedi ei rannu gyda rhieni a gwarcheidwaid blynyddoedd 5 a 6 yn egluro trefniadau taith i Landdewi Brefi dydd Mawrth wythnos nesaf. Bwriad y daith yw i ddysgu mwy am Ddewi Sant, a chael taith o gwmpas yr eglwys. Does dim cost ynghlwm â'r daith – rydym yn defnyddio arian a enillwyd fel gwobr cystadleuaeth Menter Ysgolion Treftadaeth Gymreig.

### *Llanddewi Brefi*

*A letter has already been shared with parents and guardians of Years 5 and 6 explaining the arrangements for a trip to Llanddewi Brefi next Tuesday. The purpose of the trip is to learn more about Saint David and to have a tour around the church.*
*There is no cost associated with the trip – we are using money won as a prize from the Welsh Heritage Schools Initiative competition.*

---

DIWRNOD Y LLYFR WORLD BOOK DAY

### Diwrnod y Llyfr 2026 – Cyfnewid llyfrau

### Dyddiad : Mawrth 5ed

Yn dilyn llwyddiant y llynedd, bydd cyfle i'r plant gyfnewid llyfrau ar Ddiwrnod y Llyfr eleni eto. Dilynwn yr un drefn – dewch â llyfr/au gyda chi yn y bore, eu gollwng yn y Neuadd wrth gyrraedd yr ysgol, yna bydd cyfle yn ystod y dydd i ddod i ddewis llyfr/au yn eu lle.

Dewch â'ch hoff lyfr gyda chi hefyd i ddangos i'r dosbarth. Nodwch nad oes gwisgo lan eleni – achlysur i ddathlu llyfrau a darllen yw'r diwrnod, cawn gyfle i wisgo lan rywbryd eto.

### *World Book Day 2026 – Book Swap*

### *Date : March 5th*

*Following last year's success, the children will once again have the opportunity to exchange books on World Book Day this year. We will follow the same arrangement – bring a book/books with you in the morning, drop them off in the Hall upon arriving at school, and then there will be an opportunity during the day to come and choose book(s) in exchange.*

*Please also bring your favourite book to share with the class. Please note that there will be no dressing up this year – the day is an occasion to celebrate books and reading, there will be other opportunities to dress up during the year.*



## Rygbi tag i ferched

Pob dymuniad da i dîm rygbi tag y merched ym mlynyddoedd 5 a 6 a fydd yn cystadlu yn nhwrnamaint yr Urdd ddydd Iau wythnos nesaf yn Ysgol Bro Pedr.

## *Tag Rugby for girls*

*Best wishes to the Years 5 and 6 girls' tag rugby team, who will be competing in the Urdd tournament next Thursday at Ysgol Bro Pedr.*




## H.M.S – ysgol ar gau i blant

Dyma'ch hatgoffa y bydd dydd Gwener wythnos nesaf yn ddiwrnod cau i ddisgyblion ar gyfer hyfforddiant mewn swydd y staff. Mae'r dyddiad eisoes wedi ei rannu gyda chi ym mhob llythyr y tymor hwn o dan y pennawd 'Dyddiadau pwysig i ddod' ar waelod y llythyr.

## *I.N.S.E.T – school closed to pupils*

*Here's a reminder that next Friday will be a closure day for pupils due to staff in-service training. The date has already been shared with you in every letter this term under the heading 'Important upcoming dates' at the bottom of the letter.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg


Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig i ddod:

- Diwrnod cau H.M.S : Mawrth 6ed
- Eisteddfod Ddawns : Mawrth 18fed
- Eisteddfod Gylch : Mawrth 25ain
- Eisteddfod Rhanbarth : Ebrill 18fed

### *Important upcoming dates:*

- *I.N.S.E.T school closure day : March 6th*
- *Dance Eisteddfod : March 18th*
- *Area Eisteddfod : March 25th*
- *County Eisteddfod : April 18th*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**27/02/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru

## EISTEDDFOD YR URDD YNYS MÔN 2026

Urdd Gobaith Cymru



**Mae dyddiad cau cystadlaethau gwaith cartref dydd Llun, yr 2il o Fawrth!**

**Dydd Llun yma, yr 2il o Fawrth yw'r dyddiad cau ar gyfer..**

- Holl gynnyrch Cystadlaethau Gwaith Cartref, heblaw'r eithriadau yng nghefn y Rhestr Testunau
- Cystadlaethau Eisteddfod T



**The deadline to register to compete in our Homework Competitions is this Monday, the 2nd of March!**

**This Monday is the deadline for..**

- For all Composition and Creative work along apart from exeptions listed on page 89 of the Syllabus
- Eisteddfod T Competitions

---

**Dathlwn Dewi,**
**ein traddodiadau a'r Gymraeg**
In celebration of St David, our traditions and the Welsh language

# PARÊD GŴYL DEWI

Cloc y Dre > Llys-y-Brenin

**1.00pm Sadwrn 28 Chwefror | Saturday 28 February**

Bagad Ystwyth · Samba Agogo · Seindorf Arian Aberystwyth

TYWYSYDD · **MEGAN JONES ROBERTS**

**3.30pm Llew Du** | Sesiwn Werin / Folk Session

**Nos Wener 27/2** · Ffair Grefftau yn y Llyfrgell Genedlaethol/ Craft Fair at the National Library

gwyldewiaber.cymru @GwylDewiAber
facebook.com/ParedGwylDewiAberystwyth

Cyngor Tref Aberystwyth Town Council

---

# Diwrnod Agored Fferm Llettytwppa Farm Open Day



## 06.03.2026

## 10:00-15:00

Os ydych yn bwriadu mynychu'r digwyddiad yma cysylltwch â ni trwy e-bostio info@hctceredigion.org.uk neu ffonio 01970633040.

If you plan to attend this event, please contact us by emailing info@hctceredigion.org.uk or calling 01970633040.

Parcio ar Gampws Prifysgol Llambed yn unig, bydd cludiant wedi'i drefnu i'ch cludo i Llettytwppa ag yn ôl, drwy gydol y dydd. (Bws mini yn rhedeg rhwng 9.30yb a 3.30yp)

Parking on Lampeter University Campus only, transport will be provided to and from Llettytwppa, throughout the day. (Minibus will be running between 9.30am and 3.30pm)

---

# PARTI PASG

**BLE: NEUADD YR YSGOL GYMRAEG**
**PRYD:26/03/26**
**AMSER: 4-5YP**
**£3 Y PLENTYN**

Croeso cynnes i blant Cylch, Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2

**HELFA WYAU PASG**
**RAFFL**
**GWOBRAU**
**CREFFTAU**
**CACENNAU**

Cystadleuaeth Boned Pasg!
Addurnwch foned gartref a dewch ag ef i'r parti!

Cylch Meithrin Aberystwyth




Hoffwn dynnu eich sylw i'r ffaith fod Rhaglen Aled Hughes yn cynnal cystadleuaeth **Sgwennu Stori** unwaith eto yn 2026 i ddisgyblion ysgolion Cymru. Mae'r gystadleuaeth ar agor i flynyddoedd 2-6 yn yr ysgolion cynradd, ac am y tro cyntaf mae categori uwchradd ar gyfer blynyddoedd 7,8 a 9.

Rydym yn galw ar ddisgyblion i ysgrifennu **stori o ddim mwy na 500 gair**. Eleni, mae'r beirniaid Siôn Tomos Owen ac Anni Llŷn wedi gosod brawddegau agoriadol y straeon.

Dyma'r brawddegau agoriadol:

**CYNRADD**
Ysgrifennwch stori fer sydd yn ddim mwy na 500 gair sydd yn cychwyn gyda'r paragraff yma:
**Beth yn y byd oedd y Peth? A pwy union oedd wedi ei weld? Dim ond fideos o'r peth hwn yn torri trwy'r ddaear fel twrch daear oedd yn bodoli. Wel, dim ond fideos oeddwn i wedi weld tan y diwrnod pan welais i'r Peth, a'r holl bethau yr oedd o'n ei wneud gyda fy llygaid fy hun.**

**Bydd y dyddiad cau ar y 5ed o Fawrth**.

Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi ar y **28 Ebrill 2026**, lle bydd yr enillwyr eu hunain yn derbyn rhodd gan y Cyngor Llyfrau, ynghyd â chlawr digidol wedi'w gynllunio ar gyfer y straeon buddugol. Bydd y Cyngor Llyfrau hefyd yn trefnu ymweliad i'r ysgolion buddugol gan awdur i gynnal gweithdy ysgrifennu.
Os am gystadlu, rhaid i'r straeon gael eu hanfon drwy'r ysgol (ynghyd â'r ffurflen gais sydd i'w chael ar wefan Radio Cymru) i Radio Cymru erbyn y dyddiad cau, **5ed o Fawrth 2026.**

Ceir holl fanylion cystadlu, y rheolau a'r ffurflen gais yma:
https://www.bbc.co.uk/programmes/articles/1bjzWYcW158my4Q4cjsfxDJ/sgwennu-stori-aled-hughes-2026

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
@YrYsgolGymraeg swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk 01970 617613
Prifathro / *Headteacher:* Mr Gareth L James